

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	30 Mehefin 2015
TEITL	Rhwydwaith Cyfrifiadurol Ysgolion
PWRPAS	Er gwybodaeth
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad
AWDUR	Huw Ynyr, Uwch Reolwr TG
AELOD CABINET DROS CYLLID	Y Cyngorydd Peredur Jenkins

1. Cefndir

1.1 Mae rhwydwaith cyfrifiadurol i ysgolion Gwynedd wedi ei ddiweddarau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf

1.2 Diweddariad wedi ei wneud drwy law grant gan Llywodraeth Cymru, gyda'r nawdd wedi ei neilltuo ar gyfer:

- Rhoi darpariaeth di-wifr gynhwysfawr yn y manau dysgu
- Safoni ar gyflymder i'r rhyngwyd ar 10mbps (ysgolion cynradd ac arbennig) / 100mbps (ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd > 300 o ddisgyblion)
- Darpariaeth yn cael ei gyflwyno ar ffeibr ar gyfer ehangu'n y dyfodol i 100mbps a 1000mbps
- Pob cyswllt yn cael ei wneud yn ran o rwydwaith ehangach y sector gyhoeddus (PSBA)

1.3 Pob cyswllt wedi eu cytundebu tan ddiwedd Mawrth 2017

2. Diweddariad

2.1 Mae pob ysgol uwchradd wedi eu cwblhau ac yn gweithredu ar gyflymder o 100mbps

2.2 Mae cyfanswm o 5 ysgol cynradd yn disgwyl sylw pellach cyn y byddent yn derbyn y ddarpariaeth newydd:

Ysgol	Costau Ychwanegol (cael ei ysgwyddo gan Llywodraeth Cymru)	Dyddiad Cwblhau
Ysgol Brynaerau	£12,134.07	10/07/2015

Ysgol Cymerau	£16,516.25	26/06/2015
Ysgol Gynradd Abererch	£19,305.03	28/08/2015
Ysgol Gynradd Tudweiliog	£14,008.89	31/08/2015
Ysgol Pentreuchaf	£24,871.67	31/07/2015

2.3 Mae'r rhaglen uchod wedi llithro sawl gwaith ac fe all hyn ddigwydd eto

2.4 Bydd dau adnodd rhwydwaith ychwanegol yn cael eu ychwanegu i'r tîm rhwydwaith canolog er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth newydd yn yr ysgolion

2.5 Mae darparwr y rhwydwaith PSBA mewn proses o newid ac yn trosglwyddo o gwmni Logicalis UK i BT Global Services. Mae'r cytundeb yma'n cynnig ymrwymiad i adolygu costau'r rhwydwaith yn flynyddol.

2.6 Mae'r cysylltiadau cyfredol wedi eu cytundebu tan Fawrth, 2017

3. Datblygiadau Pellach

3.1 Fe fydd system ffôn newydd yn cael ei gyflwyno i swyddfeydd y Cyngor yn ystod Chwarter 2. Mae'r system yma wedi eu dylunio fel y gall y gwasanaeth yma gael ei gyflwyno i ysgolion y Sir hefyd, ac yn cynnig cyfleon am arbedion.

3.2 Mae'r ddarpariaeth di-wifr sydd wedi ei gyflwyno'r ysgolion yn cael ei hymledu i swyddfeydd a chanolfannau eraill yn y Cyngor, megis Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden, Archifdai ac Amgueddfeydd. Fe fydd yn bosib i ddisgyblion ac athrawon barhau gyda'r gwaith cwricwlwm yn y manau hyn gan ymledu'r adnoddau dysgu sydd ar gael.

4. Ymateb i cofnod fforwm 26.02.2015

4.1 Yn y fforwm diwethaf fe gofnodwyd “**(b) Trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion yng nghyswllt yr ysgolion hynny sy’n dymuno tynnu allan o’r CLG.**”

4.2 Mae’n rhaid nodi bod y cysylltiadau gyda’r PSBA/Llywodraeth Cymru wedi eu cytundebu tan Mawrth, 2017

4.3 Byddai dod i ben gyda’r ddarpariaeth yn golygu talu’r cost cyfalaf i sefydlu’r ddarpariaeth yn ôl i Lywodraeth Cymru

4.4 Os bydda’r cyswllt yn cael ei sefydlu gyda darparwr gwahanol i’r PSBA, ni fyddai modd derbyn mynediad i’r isadeiledd di-wifr sydd yn yr ysgolion

4.5 Heb gyswllt PSBA, ni fyddai modd i’r ysgolion gael mynediad at y system SIMS

4.6 Ni fyddai modd i ysgol fanteisio ar y ddarpariaeth teleffoni newydd pe na byddent ar y rhwydwaith PSBA

5. Argymhelliad

5.1 Derbyn bod y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma yn cynnig gwelliant sylweddol i’r isadeiledd technoleg gwybodaeth sy’n cefnogi dysgu yn yr ysgolion

5.2 Ymrwymo i ddefnyddio’r ddarpariaeth newydd ac adolygu’r ddarpariaeth cyn diwedd y cyfnod cytundebol yn Mawrth, 2017